Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-VG-0002-19

Dai Lloyd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

23 Ionawr 2019

Annwyl Dai,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 3 Rhagfyr 2018 ynglŷn ag adroddiad Busnes Pawb yn dilyn eich ymchwiliad i atal hunanladdiad.

Rydym yn croesawu'r adroddiad. Mae'r argymhellion yn cyd-fynd yn fras â'r rheini yn yr adolygiad canol cyfnod o'r strategaeth Beth am Siarad â Fi 2, ac rydym yn gweithio gyda'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol i gyflwyno'r strategaeth hon ar hyn o bryd. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu rhagor o dystiolaeth i helpu i lywio ein rhaglen waith er mwyn lleihau cyfraddau hunanladdiad ymhellach.

Mae'r tabl amgaeedig yn rhoi ein hymateb i bob un o argymhellion yr adroddiad. Rydym yn fodlon derbyn 21 o'r argymhellion, a derbyn 8 arall mewn egwyddor, ble y maent yn cefnogi gweithgarwch sydd eisoes yn mynd rhagddo neu a gynigir. Mewn perthynas ag argymhellion 8 ac 13, gan fod nifer o elfennau o fewn pob argymhelliad, rydym wedi nodi naill ai 'derbyn' neu 'derbyn mewn egwyddor' ar gyfer pob rhan.

Rydym yn cydnabod yr angen i symud ymlaen â'r gwaith hwn ar fyrder, ond dylid cofio bod angen gwneud gwaith sylweddol ar rai argymhellion. Felly, pan fo amserlenni wedi'u cynnwys, yn yr argymhellion, rydym wedi nodi p'un a oes modd cyflawni hyn ai peidio.

Deallwn y bydd y Pwyllgor yn parhau i adolygu'r maes hwn yn fanwl a byddwn yn hapus i ddarparu diweddariadau pellach, yn ôl y gofyn.

A fyddech cystal â diolch i'r Pwyllgor ac i bawb arall am eu rhan wrth gefnogi'ch ymchwiliad a chynhyrchu'r adroddiad terfynol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Busnes Pawb – Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Rhagfyr 2018

Argymhelliad y Pwyllgor 1

Rydym yn argymell y dylid mabwysiadu ***fframwaith hyfforddiant ar atal hunanladdiad*** *a'i weithredu ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus mewn ffordd debyg i'r fframwaith ar gyfer trais domestig, lle y manylir ar y gofynion o ran hyfforddiant yn dibynnu ar y rôl. Yn benodol, byddai meddygon teulu yn un o'r grwpiau o weithwyr proffesiynol fyddai â gofynion uwch o ran hyfforddiant / sgiliau, ac mae'n bwysig bod ganddynt hwy a'u hyder i ofyn y cwestiynau cywir ac ymateb yn dosturiol ac effeithiol wrth ymdrin â chleifion a allai fod mewn perygl o gyflawni hunanladdiad. Credwn y dylai'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol fwrw ymlaen â hyn fel un o'r blaenoriaethau pennaf, yn enwedig o gofio bod fframwaith hyfforddiant eisoes wedi'i ddatblygu ac yn cael ei lansio yn Lloegr.*

Ymateb Llywodraeth Cymru – DERBYN

Datblygwyd y fframwaith hyfforddiant ar hunanladdiad yn Lloegr gyda mewnbwn gan dros 100 o unigolion cymwysedig, gan gynnwys cyngor a chymorth gan yr Athro Ann John, cadeirydd y Grŵp Cynghori Cenedlaethol yng Nghymru. Mae cytundeb cyfatebol i'r fframwaith gael ei addasu ar gyfer Cymru. Mae'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol wedi ymrwymo i adolygu cynnwys llawn pob modiwl hyfforddi i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer Cymru ac i ystyried cynnwys ychwanegol ar gyfer Cymru y bydd ei angen ochr yn ochr â'r fframwaith. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys cymorth i feddygon teulu. Bydd y ddogfennaeth ar gael ar-lein ac yn cael ei chyhoeddi yn 2019.

Byddwn hefyd yn ystyried, gyda'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol, sut rydym yn hyrwyddo'r gwaith hwn ac yn annog gwasanaethau cyhoeddus i fanteisio ar y cyfleoedd a amlinellir yn y fframwaith hyfforddi.

<u>Goblygiadau Ariannol</u>

Bydd y broses o ddatblygu'r fframwaith yn arwain at gostau sy'n gysylltiedig â chyfieithu a bydd y fframwaith ar gael ar-lein drwy wefan a gefnogir eisoes. Mae gwaith pellach gyda'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol, sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cam hwn, hefyd wedi cael ei ymgorffori o fewn ein cyllideb y flwyddyn nesaf.

Argymhelliad y Pwyllgor 2

Rydym yn argymell y dylai ***Llywodraeth Cymru arwain y gwaith o hyrwyddo deunyddiau sydd eisoes yn bodoli****, megis yr adnodd hyfforddi "See. Say. Signpost." fel rhan o ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a sefydlu'r neges bod*

hunanladdiad yn fusnes i bawb ac y gall ddigwydd mewn unrhyw gymuned ar unrhyw adeg.

Ymateb Llywodraeth Cymru – DERBYN

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth am adnoddau. Mae gwefan ar gyfer gwaith y Grŵp Cynghori Cenedlaethol eisoes yn cael ei datblygu a bydd yn anelu at hyrwyddo a chael mynediad i adnoddau cysylltiedig. Caiff y gwefan ei lansio yn swyddogol ar 31 Ionawr 2019 a bydd yn cynnwys cysylltiadau â rhaglenni priodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a ffynonellau cymorth ar gyfer unigolion, teuluoedd, ysgolion, busnesau a chymunedau. Cynhelir cynnwys y wefan gan y Grŵp Cynghori Cenedlaethol i sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn berthnasol i Gymru. Er mwyn cynyddu'r gynulleidfa, caiff y wefan ei hyrwyddo drwy aelodaeth amlasiantaeth y Grŵp Cynghori Cenedlaethol a grwpiau eraill lle y bo'n briodol, er enghraifft Grŵp Sicrwydd y Concordat Argyfwng Iechyd Meddwl.

Yn wahanol i 'ymgyrch' unigol lle y mae sylfaen dystiolaeth gyfyngedig o ran effaith ar lefel boblogaeth, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gynyddu lles a chadernid o ran iechyd meddwl, er enghraifft drwy ein gwaith ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) a'r Dull Ysgol Gyfan. Byddwn yn parhau i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i nodi cyfleoedd pellach, er enghraifft drwy'r Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru a Cymru Iach ar Waith i atgyfnerthu'r dull hwn. Mae gan dîm cyfathrebu Llywodraeth Cymru fynediad i grŵp sefydledig o arweinwyr cyfathrebu ar draws y GIG yng Nghymru sy'n gallu cynorthwyo i hwyluso'r gwaith o hyrwyddo deunyddiau ar adegau priodol.

Yn wahanol i 'ymgyrch' unigol lle y mae sylfaen dystiolaeth gyfyngedig o ran effaith ar lefel boblogaeth, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gynyddu lles a chadernid o ran iechyd meddwl, er enghraifft drwy ein gwaith ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) a'r Dull Ysgol Gyfan. Byddwn yn parhau i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i nodi cyfleoedd pellach, er enghraifft drwy'r Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru a Cymru Iach ar Waith i atgyfnerthu'r dull hwn. Mae gan dîm cyfathrebu Llywodraeth Cymru fynediad i grŵp sefydledig o arweinwyr cyfathrebu ar draws y GIG yng Nghymru sy'n gallu cynorthwyo i hwyluso'r gwaith o hyrwyddo deunyddiau ar adegau priodol.

Argymhelliad y Pwyllgor 3

Rydym yn argymell bod Comisiwn y Cynulliad yn cynnig hyfforddiant ar atal hunanladdiad i Aelodau'r Cynulliad, Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad, staff y Comisiwn a chontractwyr. Yn ogystal â pharatoi Aelodau a staff y Cynulliad i ymateb yn briodol, rydym yn gobeithio y bydd hyn yn dangos esiampl i gyflogwyr eraill, a byddem yn erfyn ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo hyfforddiant ar atal hunanladdiad

ymhlith ei holl staff.

Ymateb Llywodraeth Cymru - DERBYN

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o weithwyr proffesiynol ym maes adnoddau dynol sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant atal hunanladdiad. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i addewid Amser i Newid Cymru i fynd i'r afael â'r stigma a'r gwahaniaethu sydd ynghlwm wrth iechyd meddwl, ac, er mwyn ategu'r addewid, mae wedi rhoi rhaglen o godi ymwybyddiaeth ar waith i bob aelod o staff. Rydym hefyd yn paratoi Strategaeth Iechyd Meddwl ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru dan arweiniad adnoddau dynol.

Rydym yn ymwybodol y bydd Comisiwn y Cynulliad yn ymateb yn uniongyrchol mewn ymateb i'r argymhelliad hwn.

Goblygiadau Ariannol

Bydd y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cam hwn yn cael eu cynnwys o fewn cyllidebau hyfforddiant a datblygu cyfredol.

Argymhelliad y Pwyllgor 4

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol yn gweithio gyda Network Rail a'r Samariaid i werthuso llwyddiant yr ymgyrch Small Talk Saves Lives gyda'r nod o gyflwyno hyn i ystod ehangach o sefydliadau.

Ymateb Llywodraeth Cymru - DERBYN MEWN EGWYDDOR

Rydym yn cydnabod bod nifer o fentrau atal hunanladdiad cyfredol yng Nghymru, gan gynnwys yr ymgyrch Small Talk Saves Lives. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol yn mapio'r rhaglenni a'r mentrau cyfredol yng Nghymru, gan gynnwys nodi a oes angen cynnwys gwerthusiad fel rhan o'r fenter.

Gyda'n Tîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, byddwn yn archwilio opsiynau i atgyfnerthu'r gwerthusiad, lle y bo'n ofynnol, o fentrau sy'n meddu ar y potensial i gael eu datblygu a byddwn yn dysgu o'r mentrau hynny drwy broses werthuso gadarn. Bydd hyn yn cynnwys ystyried yr ymgyrch ac ymgyrchoedd eraill y cyfeirir atynt yn yr argymhellion. Bydd hyn yn llywio meysydd y dylid buddsoddi ynddynt yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cam hwn wedi cael eu hymgorffori o fewn ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Argymhelliad y Pwyllgor 5

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau ar fyrder i sicrhau bod pob meddyg teulu yng Nghymru yn ymwybodol o ganllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ynghylch rhannu gwybodaeth a'r datganiad consensws a gytunwyd gan Adran Iechyd y DU, y Colegau Brenhinol a phartneriaid eraill. Rydym yn cefnogi'r ymgyrch gan Papyrus i annog prif weithredwyr cyrff y GIG i roi sicrwydd y byddant yn cefnogi staff sy'n gwneud penderfyniad ar sail budd pennaf i dorri cyfrinachedd claf er mwyn amddiffyn bywyd.

Ymateb Llywodraeth Cymru – DERBYN

Byddwn yn cynhyrchu Cylchlythyr Iechyd Cymru i sicrhau bod yr holl feddygon teulu yng Nghymru yn ymwybodol o ganllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ac yn eu deall mewn perthynas â rhannu gwybodaeth a'r datganiad consensws y cytunwyd arno gan Adran Iechyd y DU, y Colegau Brenhinol a phartneriaid eraill.

Byddwn yn gweithio gyda'r Prif Swyddog Meddygol i ystyried cyfleoedd pellach i godi ymwybyddiaeth gyda byrddau iechyd a byddwn yn denu sylw Prif Weithredwr cyrff y GIG at yr argymhelliad hwn.

<u>Goblygiadau Ariannol</u>

Dim.

Argymhelliad y Pwyllgor 6

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau cydraddoldeb rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a chorfforol. Dylai hyn fod yn gysylltiedig â "Cymru Iachach", a rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei chynlluniau ar gyfer datblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn rhoi yr un flaenoriaeth i iechyd meddwl a lles meddyliol ag y maent yn ei rhoi i iechyd corfforol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu dyrannu, a bod canlyniadau cleifion, o ran iechyd meddwl gwell, yn cael eu mesur ac yr adroddir arnynt. Os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif ynghylch sicrhau cydraddoldeb rhwng iechyd meddwl ac iechyd corfforol, rhaid iddi ystyried a fyddai cyflwyno targedau ystyrlon yn sicrhau bod byrddau iechyd yn rhoi ffocws digonol ar wella gwasanaethau iechyd meddwl a phrofiad cleifion o ofal.

Ymateb Llywodraeth Cymru – DERBYN

Rydym eisoes wedi ymrwymo i weithio tuag at sicrhau cydraddoldeb rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Mae Ffyniant i Bawb yn rhoi iechyd meddwl fel un o chwe blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ac mae'n ein hymrwymo i wella

gwasanaethau ac ymdrin ag iechyd meddwl ac iechyd corfforol ar y cyd. Mae Cymru Iachach yn datblygu hyn, gan ymrwymo i ddarparu lefel gyfartal o driniaeth, gofal neu gymorth boed y salwch yn ymwneud ag iechyd corfforol neu iechyd meddwl.

Sefydlwyd y gronfa trawsnewid i sicrhau bod cynigion yn cael eu harfarnu yn erbyn yr egwyddorion dylunio a nodwyd o fewn Cymru Iachach, ac mae sawl cynnig eisoes wedi'u cymeradwyo sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl. Caiff y cynigion hyn eu cymeradwyo gan un neu fwy o'r Byrddau Cynllunio Rhanbarthol sy'n eu hystyried yn unol ag asesiadau o anghenion y boblogaeth ranbarthol a chynlluniau ardal, yn unol â deddfwriaeth gyfredol a pholisïau Llywodraeth Cymru sy'n ategu cydraddoldeb rhwng iechyd meddwl ac iechyd corfforol. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gynnal asesiad o anghenion y boblogaeth, gan amlygu anghenion yr ardal o ran gofal a chymorth, a phennu lefel y gwasanaethau sy'n angenrheidiol er mwyn diwallu'r anghenion hynny. Mae Cynlluniau Ardal a ddatblygwyd gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn nodi'r ffordd y bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn diwallu'r anghenion a nodwyd yn asesiadau'r boblogaeth.

Mae'r gronfa trawsnewid gyfredol ar gyfer iechyd meddwl, a ddechreuodd yn 2018/19 a'r arian newydd ar gyfer iechyd meddwl sydd ar gael o 2019/20 hefyd yn cynnwys gofyniad i fod yn gydnaws â 'Cymru Iachach'. Yn ogystal, mae'r cynllun drafft Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, Cynllun Cyflawni 2019-22, y bydd ymgynghori ffurfiol arno yn y gwanwyn, yn cynnwys thema barhaol ar gydraddoldeb rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

Mewn perthynas â thargedau ystyrlon, bydd y gwaith cyfredol sy'n mynd rhagddo i ddatblygu'r Set Ddata Graidd Genedlaethol Iechyd Meddwl (MHCDS) yn dal data ar lefel person o'r wybodaeth a roddwyd gan glinigwyr ar adeg asesu, cynllunio gofal a thriniaeth, ac adolygu. Datblygwyd yr eitemau data hyn gan fwrdd llywio prosiect cenedlaethol amlasiantaeth ac maent yn mynd drwy broses o safoni drwy Fwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru (WISB) i sicrhau eu bod yn cael eu casglu mewn ffordd gyson. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gyflwyno fesul cam ar hyn o bryd ond dylai ddod i ben erbyn diwedd 2019. Caiff y set ddata hon ei dal o fewn System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), sy'n llwyfan technoleg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Fel rhan o'r cynllun prosiect ar gyfer set ddata graidd, mae ffrwd waith hefyd yn ystyried gofynion adrodd. Bydd hyn yn cynnwys targedau cyfredol Llywodraeth Cymru fel yr amser rhwng atgyfeirio cleifion a derbyn triniaeth o dan y Mesur Iechyd Meddwl, ond hefyd sut rydym yn dal canlyniadau. Rydym yn gweithio'n agos â'r grŵp cyfoedion; meysydd sy'n fyw ar WCCIS a NWIS ar hyn o bryd er mwyn galluogi'r gwaith hwn i fynd rhagddo.

Yn unol â'r rhaglen WCCIS ehangach, rhagdybir y bydd y system yn hollol weithredol erbyn 2022. O safbwynt iechyd meddwl rydym wedi cyflogi staff i gefnogi gwaith yn uniongyrchol â thimau ar draws Cymru drwy gydol 2019, i dreialu ffurflenni

a chasglu data gan ddefnyddio systemau TG cyfredol, mewn paratoad ar gyfer WCCIS. Mae hyn yn cynnwys gwaith i lywio arferion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, dal profiadau defnyddwyr gwasanaethau, a gwella cysondeb wrth ddefnyddio mesurau canlyniadau ar gyfer cynnydd wrth adfer. Bydd y gwaith yn ymestyn ar draws yr holl dimau iechyd meddwl yn 2020-2021, gan greu diwylliant o arferion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol – mae'r gwaith hwn wedi cael ei ymgorffori o fewn rhaglenni gwaith cyfredol.

Argymhelliad y Pwyllgor 7

Rydym yn argymell y dylid gwerthuso effeithiolrwydd y llwybr atgyfeirio brys ar gyfer Meddygon Teulu a roddwyd ar waith gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda gyda'r bwriad o gyflwyno'r dull hwn ar draws yr holl fyrddau iechyd yng Nghymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru – DERBYN

Mae safonau eisoes ar waith sy'n golygu bod rhaid i fyrddau iechyd gyflawni amseroedd targed o'r amser atgyfeirio i'r asesiad. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru '*The Role of Community mental Health Teams in Delivering Community Mental Health Services: Interim Policy Implementation Guidance and Standards (2010)*' yn cynnwys y disgwyliad bod pobl sy'n cael eu hatgyfeirio mewn argyfwng yn cael eu hasesu o fewn 2-4 awr, y rhai sy'n cael eu hatgyfeirio fel achos brys yn cael eu hasesu o fewn 48 awr, a'r rhai sy'n cael eu hatgyfeirio fel mater o drefn yn cael eu hasesu o fewn 28 diwrnod yn unol â'r *Mesur Iechyd Meddwl (2010).* Byddwn yn parhau i fonitro hyn drwy ddiweddariadau rheolaidd Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

Mae bwrdd iechyd Hywel Dda wedi cadarnhau nad oes ganddynt brotocol sy'n wahanol i'r disgwyliadau cyfredol mewn perthynas ag atgyfeiriadau gan feddygon teulu at Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHTs) sy'n bodoli ledled Cymru.

Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol.

Argymhelliad y Pwyllgor 8

Rhan A - *Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu model brysbennu Cymru gyfan a fyddai'n golygu bod nyrsys seiciatrig cymunedol wedi'u lleoli yn ystafelloedd rheoli'r heddlu. Credwn y dylid gwneud y gwaith hwn yn unol â'r amserlen chwe mis a nodir yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cadernid Meddwl (argymhelliad 15 yn yr adroddiad hwnnw):*

▪ *Bod Llywodraeth Cymru, o fewn chwe mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, mewn perthynas â gofal argyfwng a gofal y tu allan i oriau:*

▪ *yn gweithio gyda heddluoedd Cymru i ystyried model brysbennu ar gyfer Cymru gyfan a fyddai'n sicrhau bod ymarferwyr iechyd meddwl ar gael yn ystafelloedd rheoli'r heddlu i roi cyngor pan fydd plant a phobl ifanc (a grwpiau oedran eraill, os yn briodol) yn wynebu argyfwng.*

Ymateb Llywodraeth Cymru - DERBYN MEWN EGWYDDOR

Mae gwella mynediad i ofal y tu allan i oriau a gofal argyfwng yn faes blaenoriaeth yn ein cronfa trawsnewid iechyd meddwl ac rydym wedi ymrwymo bron £1 miliwn ar gyfer amrywiaeth o ddulliau i wella cymorth, gan gynnwys gwasanaethau cyswllt, cymorth mewn argyfwng a brysbennu stryd o 2018-19. Mae hyn yn datblygu'r amrywiaeth o ddulliau sydd eisoes wedi'u gweithredu gan y Partneriaethau Cyfiawnder Troseddol ac Iechyd Meddwl Rhanbarthol.

Mae gofal argyfwng a'r tu allan i oriau hefyd wedi cael ei nodi fel maes blaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad yn 2019-20. Rydym yn parhau i eithrio gyda phartneriaid, gan gynnwys y pedwar heddlu yng Nghymru, drwy Grŵp Sicrwydd y Concordat Argyfwng Iechyd Meddwl, i dargedu'r buddsoddiad hwn i wneud y gorau o'r effaith. Bydd y blaenoriaethu hwn hefyd yn cael ei lywio drwy adrodd i Lywodraeth Cymru a Grŵp Sicrwydd y Concordat Argyfwng Iechyd Meddwl ar gynnydd yr amrywiaeth gyfredol o ddulliau. Bydd hyn yn cynnwys ystyried effaith y dulliau sydd eisoes ar waith mewn rhai ardaloedd er mwyn sicrhau ein bod yn nodi dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth y dylid eu cefnogi ar lefel genedlaethol.

Rhan B *- yn amlinellu sut y gellid cyfeirio adnoddau at alluogi timau argyfwng ym mhob bwrdd iechyd i ddarparu hyfforddiant a rhaeadru arbenigedd i wasanaethau rheng flaen eraill, yn enwedig cydweithwyr mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, mewn ardaloedd ar y gororau (i wella cysylltiadau trawsffiniol â'r canolfannau hynny a ddefnyddir amlaf gan gleifion sy'n byw yng Nghymru), ac mewn ysgolion (i wneud sgyrsiau am hunanladdiad a hunan-niwed yn benodol yn fater o drefn);*

Ymateb Llywodraeth Cymru - DERBYN MEWN EGWYDDOR

Caiff y dull gweithredu ei lywio gan ein gwaith a fanylir yn Rhan A. Mae canllawiau cyfredol CMHT yn cydnabod y rôl hanfodol y mae timau argyfwng yn ei chwarae wrth ddarparu arbenigedd i wasanaethau rheng flaen eraill. Nid oes gan dimau argyfwng yr adnoddau i ddarparu hyfforddiant uniongyrchol ac ni fyddem yn ystyried hon fel rôl greiddiol i'r tîm, fodd bynnag byddwn yn ystyried gofynion hyfforddi fel rhan o'r dull a amlinellir yn Adran A o'r argymhelliad hwn.

Mae cynllun peilot mewngymorth CAMHS wedi bod yn rhedeg ers 2017 mewn ymdrech i uwchsgilio staff ysgol i helpu plant a phobl ifanc cyn iddynt gyrraedd pwynt argyfwng. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer staff ysgol ar sut dylid trafod hunanladdiad a hunan-niweidio gyda phlant a phobl ifanc. Caiff ein camau yn y dyfodol mewn perthynas â'r maes hwn eu llywio gan ganfyddiadau'r gwerthusiad ffurfiol o'r cynlluniau peilot mewngymorth, a gynhelir yn ystod yr Hydref 2020. Caiff y gwaith hwn ei oruchwylio gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidog i sicrhau y caiff ei integreiddio fel rhan o ddull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles.

Mae Rhan I o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn ceisio cryfhau rôl gofal sylfaenol wrth ddarparu gofal a thriniaeth effeithiol ar gyfer iechyd meddwl, ac mae'n nodi'r gofyniad cyfreithiol i ddarparu Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol (LPMHSS) drwy gydol Cymru. Un o'r pum blaenoriaeth allweddol sydd gan LPMHSS yw darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth arall i ddarparwyr gofal sylfaenol a gwella'r gwasanaethau iechyd meddwl y maent yn eu darparu neu'n eu trefnu.

Rhan C - yn sicrhau bod y byrddau iechyd yn darparu cymorth dilynol ar ôl rhyddhau, yn darparu gwybodaeth am sut mae'r byrddau iechyd yn monitro'r ddarpariaeth hon, ac yn ymrwymo i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd er mwyn bod yn dryloyw ac yn atebol;

Ymateb Llywodraeth Cymru – DERBYN

Mae eisoes yn ddisgwyliad y bydd byrddau iechyd yn darparu cymorth dilynol ar ôl rhyddhau, yn unol â cham gweithredu 1.2 yng nghynllun cyflawni 2016-19 Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a chynllun cyflawni Siarad â Fi 2. Rydym yn cydnabod bod y safon wedi'i diwygio'n ddiweddar i 3 diwrnod fel rhan o'r Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Ddynladdiad a Hunanladdiad (NCISH). Caiff y broses o adrodd ar y safon hon ei hystyried fel rhan o waith y set ddata graidd iechyd meddwl, a fanylir yn argymhelliad chwech, er y cydnabyddir nad yw systemau TG cyfredol yn cefnogi'r broses o gasglu'r data hwn. Byddwn yn gofyn i fyrddau iechyd flaenoriaethu'r broses o gasglu'r data hwn fel rhan o'r cynllun cyflawni drafft ar gyfer 2019-2022. Fel rhan o'r broses hon, byddwn yn gweithio gyda byrddau iechyd i nodi'r ffordd fwyaf briodol o ddilyn unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio at dimau / gwasanaethau eraill o'r Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.

Rhan D - yn sicrhau bod yr holl fyrddau iechyd yn cydymffurfio â'r gofyniad i gadw gwelyau dynodedig y gellid eu staffio'n ddigonol ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed mewn argyfwng, sy'n nodi sut y bydd hyn yn cael ei fonitro a sut y bydd adroddiad yn cael ei lunio amdano yn y dyfodol, a pha gamau a gymerir os nad yw gwelyau o'r fath ar gael;

Ymateb Llywodraeth Cymru – DERBYN

Yn 2015 cyhoeddwyd Canllawiau ar Dderbyniadau gennym. Mae'r ddogfen yn darparu cyfarwyddyd ar bwysigrwydd darparu cymorth a thriniaeth effeithiol i bobl ifanc o dan 18 oed. Mae'r canllawiau yn rhoi manylion y llwybrau, prosesau a gweithdrefnau y disgwylir i fyrddau iechyd gadw atynt er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn triniaeth mewn dull amserol a phriodol a'u bod yn derbyn gofal mewn amgylchedd cefnogol a gofalgar sy'n briodol i'w hoedran.

O dan amgylchiadau lle nad oes modd osgoi derbyn i ward oedolion, dylid sicrhau bod staff â chymwysterau addas yn gofalu am y plant a phobl ifanc a, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, dylid eu symud i gyfleuster mwy priodol. Mae hefyd yn ofyniad i'r digwyddiadau hyn gael eu cofnodi a'u hadolygu i sicrhau bod y prosesau cywir wedi cael eu dilyn ac y gellid dysgu gwersi i lywio'r broses o reoli digwyddiadau tebyg.

Yn weithredol o 1 Ebrill 2015, dylid sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc 16 oed ac is sy'n cael eu derbyn i wardiau iechyd meddwl oedolion; yr holl bobl 16 i 17 oed sy'n cael eu derbyn i wardiau iechyd meddwl oedolion lle ystyrir bod y derbyniad yn amhriodol i anghenion y claf ac nad yw'n ddewis y claf; a'r holl blant a phobl ifanc 16 oed ac is sy'n cael eu cymryd i le diogel o dan adran 136 sy'n cynnwys gorsaf heddlu fel y'i diffiniwyd o dan adran 135 Deddf Iechyd Meddwl 1983 (MHA) yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru yn unol â'i fframwaith dysgu achos difrifol

(fel y nodwyd yng nghanllawiau Gweithio i Wella)

http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/gweithio-i-wella

Mae Byrddau Iechyd yn cadarnhau eu wardiau dynodedig i Lywodraeth Cymru yn flynyddol erbyn 1 Ebrill. Tybir bod derbyniadau amhriodol i wardiau oedolion ar gyfer plant a phobl ifanc 16-18 oed yn ddigwyddiadau anffafriol a dylid eu hadrodd i Lywodraeth Cymru – mae'r digwyddiadau hyn wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Rhan E - yn gweithredu'n gyflym ac mewn ffordd unffurf ar draws y byrddau iechyd i gynnig un pwynt mynediad at wasanaethau arbenigol, er mwyn sicrhau mynediad amserol a phriodol i gymorth, boed yn gymorth brys neu'n gymorth arall; ac

▪ yn myfyrio ar ganlyniadau'r adolygiad o ofal argyfwng, yn amlinellu beth yn fwy sydd angen ei wneud i ddarparu gwasanaeth gofal argyfwng 24/7 diogel a chost-effeithiol ym mhob rhan o Gymru, sut y gwneir hynny, ac erbyn pryd.

Ymateb Llywodraeth Cymru - DERBYN MEWN EGWYDDOR

Fel y nodwyd yn ein hymateb i'r adroddiad Cadernid Meddwl, mae'r Rhaglen Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc fel rhan o raglen waith 2018-19 yn ystyried rhinweddau cyflwyno un pwynt mynediad ar draws y byrddau iechyd.

Yn yr un modd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ailymweld â chanllawiau CMHT dros dro i archwilio'r posibilrwydd o fodel un pwynt mynediad fel rhan o'r adolygiad. Dyma gam gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Cyflawni drafft ar gyfer 2019-2022.

Eto, caiff y dull gweithredu hwn ei lywio gan ganlyniad y gwaith yn Rhan A. Rydym wedi sicrhau bod bron £7m [£2.7m CAMHS / £4m oedolion] ar gael yn flynyddol ers 2015-16 i wella darpariaeth ar gyfer pobl sydd mewn argyfwng. Rydym yn ymwybodol o ffurflenni'r byrddau iechyd bod Timau Argyfwng CAMHS a Gwasanaethau Cyswllt Seiciatrig i Oedolion yn gweithio oriau estynedig ac ar benwythnosau ac mewn partneriaeth ag eraill er mwyn datblygu perthynas waith i alluogi person sydd mewn argyfwng i gael eu hasesu'n gyflym a chael mynediad i gymorth priodol.

<u>Goblygiadau ariannol</u>

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol – mae'r gwaith hwn wedi cael ei ymgorffori o fewn rhaglenni gwaith cyfredol a fydd yn caniatáu i ni wneud cynnydd.

Argymhelliad y Pwyllgor 9

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau ar fyrder i ganfod i ba raddau y mae'r rhai a ryddhawyd o ofal fel cleifion mewnol yn cael gofal dilynol ar hyn o bryd o fewn yr amserlen darged ac yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ***o fewn tri mis****. Dylai hyn gynnwys camau i sicrhau bod systemau TG yn gallu nodi a yw hyn yn digwydd.*

Argymhelliad y Pwyllgor 10

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno proses chwe-misol i fonitro ac adrodd ar y targed yn Law yn Llaw at Iechyd Meddwl - Cynllun Cyflawni sy'n nodi y bydd yr holl gleifion sy'n cael eu rhyddhau o ofal fel cleifion mewnol yn cael gofal dilynol o fewn yr amserlen benodedig.

Ymateb Llywodraeth Cymru - DERBYN

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu cymorth dilynol i gleifion o fewn 3 diwrnod o gael eu rhyddhau. Fodd bynnag, yn dilyn gwaith i ddeall galluoedd byrddau iechyd, rydym yn ymwybodol mai dim ond un bwrdd iechyd sydd â'r seilwaith TG i ddal y data hwn ar hyn o bryd. Gellid darparu cymorth gan amrywiaeth o wasanaethau gan

gynnwys y rhai yn y trydydd sector, ac mae'n anodd dal y wybodaeth i ddiwallu gofynion adrodd. Fel yr amlinellwyd yn ein hymateb i 8c, mae ystyried y dull gorau o sicrhau cydymffurfiaeth a dal gwybodaeth yn cael ei archwilio fel rhan o'r gwaith ar y set ddata graidd iechyd meddwl. Trwy gydol 2019, mae gofynion adrodd yn cael eu diffinio ar gyfer WCCCIS. Yn 2020, caiff y rhain eu hymgorffori o fewn y seilwaith TG. Caiff Hysbysiadau Newid Safonau Data (DSCNs) eu cyhoeddi i fyrddau iechyd wrth i'r gwaith gael ei gwblhau'n derfynol. Bwriedir i'r set ddata graidd derfynol yn ei chyfanrwydd gael ei chwblhau yn ystod ail chwarter 2020. Fodd bynnag, hyd nes y bydd y set ddata yn hollol weithredol ac wedi'i chyflwyno, ni fydd yn bosibl i Lywodraeth Cymru gasglu'r data hwn.

Argymhelliad y Pwyllgor 11

Rydym yn argymell, yng ngoleuni'r dystiolaeth bod y perygl o hunanladdiad ar ei uchaf ar y trydydd diwrnod ar ôl rhyddhau pobl o ofal, y dylai'r targed o ran trefnu apwyntiad dilynol cyntaf i gleifion mewnol a ryddhawyd o ofal iechyd meddwl gael ei newid er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gofal dilynol ***o fewn 48 awr****.*

Ymateb Llywodraeth Cymru - DERBYN MEWN EGWYDDOR

Cytunir y dylai unrhyw ofal dilynol ddigwydd cyn gynted â phosibl ac felly rydym yn derbyn hyn mewn egwyddor ond mae'n rhaid ystyried hyn yn erbyn adroddiad NCISH sy'n argymell taw'r safon ar gyfer gofal dilynol yw tri diwrnod. Bydd proses negodi strwythuredig yn cael ei chynnal gyda chyfranogiad pob bwrdd iechyd i sefydlu manylion gweithredu'r safon yn unol â phroses WISB (fel y nodwyd yn yr ymateb i 9/10). Byddwn yn sicrhau bod yr argymhelliad hwn yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith.

Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol – mae'r gwaith hwn wedi cael ei ymgorffori o fewn rhaglenni gwaith cyfredol.

Argymhelliad y Pwyllgor 12

Rydym yn argymell y dylid cyflwyno targed ar gyfer amseroedd aros am therapïau seicolegol i sicrhau bod y rhai sydd mewn angen yn cael y cymorth hwn o fewn amserlen briodol. Mae mynediad cynnar at therapi priodol yn gallu darparu'r ymyrraeth y mae ei hangen ac atal yr angen i rywun gael gofal mewn argyfwng yn nes ymlaen.

Ymateb Llywodraeth Cymru - DERBYN

Mae targedau eisoes ar waith i gael mynediad i Wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (LPMHSS). Ar gyfer y gwasanaethau hyn, disgwylir i fyrddau iechyd gynnal asesiad o fewn 28 diwrnod i dderbyn atgyfeiriad a dylai ymyrraeth therapiwtig (a allai gynnwys therapi seicolegol) ddechrau o fewn 28 diwrnod i ganlyniad yr asesiad. Mae gan y ddwy safon mynediad darged o 80%. Mae data a gyhoeddwyd o fis Hydref 2017 i fis Medi 2018 yn dangos ar sail Cymru gyfan, pob oedran, llwyddodd Byrddau Iechyd i gyfarfod a mynd y tu hwnt i'r ddau darged ar 10 allan o 12 achlysur. Mae'r perfformiad hwn yng nghyd-destun y ffaith bod gwasanaethau LPMHSS bellach yn derbyn cyfartaledd o dros 1,500 o atgyfeiriadau ychwanegol y mis ledled Cymru o'u cymharu â'r un cyfnod yn 2013-14 pan ddechreuodd y gwaith o adrodd ar ddata perfformiad ac na lwyddwyd i gyrraedd unrhyw un o'r targedau.

Rydym yn parhau i weithredu ein hymrwymiad i wella mynediad i therapïau seicolegol ac rydym yn darparu £5.5M o gyllid rheolaidd ychwanegol y flwyddyn i gefnogi hyn. Mae buddsoddiad a chymorth pellach ar y gweill ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r Pwyllgor Rheoli Therapïau Seicolegol Cenedlaethol wedi cynhyrchu cynllun gweithredu i gynorthwyo byrddau iechyd i asesu eu safle cyfredol a gwneud gwelliannau yn lleol. Mae'r cynllun hwn yn dangos disgwyliadau ar gyfer cyflawni, gan gynnwys hyfforddiant a goruchwyliaeth staff a dewis y defnyddwyr gwasanaethau. Yn 2018, cynhaliodd byrddau iechyd archwiliad yn erbyn y cynllun hwn a Matrics Cymru sy'n pennu'r ystod o therapïau seicolegol i'w darparu yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn llywio eu cynlluniau buddsoddi.

Rydym eisoes wedi ymrwymo i gyflwyno targed ar gyfer therapïau seicolegol arbenigol a byddwn yn dechrau proses adrodd ffurfiol ar hyn ym mis Ebrill 2019. Disgwylir i fyrddau iechyd ddechrau trin 80% o gleifion o fewn y targed o 26 wythnos. Ein bwriad yw gostwng y targed hwn unwaith y bydd y buddsoddiad newydd rydym yn ei wneud eleni yn ein galluogi i wneud hynny.

<u>Goblygiadau Ariannol</u>

Nid oes unrhyw ystyriaethau cost ychwanegol ar gyfer yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad y Pwyllgor 13

Rhan A *- Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn derbyn yr alwad a wnaed yn yr adolygiad canol cyfnod o Siarad â fi 2 i ddatblygu a gweithredu* ***strategaeth ôl-ymyrraeth Cymru gyfan ar gyfer hunanladdiad****, ac y dylai'r gwaith hwn gael ei ddatblygu fel* ***un o'r blaenoriaethau pennaf****. Dylai hyn gynnwys manylion cymorth dilynol i unigolion sydd wedi dioddef profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad, ac mewn lleoliadau sefydliadol.*

Ymateb Llywodraeth Cymru - DERBYN

Byddwn yn adolygu'r llwybr ôl-ymyrraeth sydd ar gael yn Lloegr erbyn hyn ac yn gweithio gyda'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol i'w addasu ar gyfer Cymru lle bo angen.

Rhan B - Dylai gynnwys yr argymhelliad yn Cadernid Meddwl y dylid rhoi canllawiau i'r holl ysgolion ynghylch siarad am hunanladdiad (ac, fel blaenoriaeth, i ysgolion lle bu achos o hunanladdiad neu amheuaeth o hunanladdiad).

Ymateb Llywodraeth Cymru - DERBYN MEWN EGWYDDOR

Derbyniwyd yr argymhelliad mewn egwyddor yn yr ymateb i Cadernid Meddwl a chyfeiriwyd at y cwricwlwm newydd (argymhelliad 7). Mae'r cwricwlwm newydd sy'n cael ei ddatblygu yn cynnwys modiwlau ar les, gyda chynnwys ar hunan-niweidio ac atal hunanladdiad. Mae'n cael ei baratoi gyda chyngor arbenigol gan y Grŵp Cynghori Cenedlaethol. Mae'r gwaith hwn yn ffurfio rhan o raglen waith Gorchwyl a Gorffen y Gweinidog i sicrhau ei fod yn rhan o ddull gweithredu ysgol gyfan a system gyfan tuag ar iechyd meddwl a lles. Gweler hefyd ein hymateb i argymhelliad 24.

Rhan C - Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod digon o adnoddau wedi'u clustnodi i weithredu'r strategaeth ôl-ymyrraeth hon.

Ymateb Llywodraeth Cymru - DERBYN

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu adnoddau ar gyfer y strategaeth ôl-ymyrraeth.

<u>Goblygiadau Ariannol</u>

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cam hwn wedi cael eu hymgorffori o fewn ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Argymhelliad y Pwyllgor 14

Rydym yn argymell bod ***Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn mynd ati i hyrwyddo argaeledd yr adnodd Cymorth wrth Law Cymru****. Dylai hyn gynnwys ymgysylltu'n rhagweithiol â grwpiau cymorth y trydydd sector a sicrhau bod staff rheng flaen, yn enwedig gwasanaethau brys, sydd â chysylltiad â'r rhai sydd wedi dioddef profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad, nid yn unig yn llwyr ymwybodol o Cymorth wrth Law Cymru ond, yn hollbwysig, yn gallu cael gafael ar gopïau o'r adnodd fel y gellir ei ddosbarthu i'r rhai sydd wedi dioddef profedigaeth ar yr adeg y mae ei angen arnynt. Gan fod yr adnodd hwn eisoes ar gael, dylid rhoi hyn*

ar waith o fewn 3 mis.

Ymateb Llywodraeth Cymru - DERBYN

Rydym yn cydnabod yr anawsterau mae pobl yn eu hwynebu wrth gael copïau caled o'r ddogfen Cymorth wrth Law. Bydd cyllid ar gael i gefnogi costau argraffu a dosbarthu parhaus, a bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i egluro'r trefniadau cyswllt ar gyfer y rhai sy'n ceisio copïau caled. Bydd hyn yn cynnwys atgyfeirio pobl at fanylion cyswllt y person priodol drwy wefannau Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a gwefannau hunanladdiad cenedlaethol.

Byddwn yn gweithio gyda'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol i hyrwyddo'r wefan a Cymorth wrth Law drwy'r aelodaeth a'u rhwydweithiau yn dilyn lansio'r safle yn ffurfiol ym mis Ionawr. Byddwn yn cysylltu ag arweinwyr yn yr heddlu ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) i sicrhau bod staff rheng flaen yn y gwasanaethau brys yn ymwybodol o Cymorth wrth Law ac yn atgyfeirio pobl at y ddogfen yn briodol. Byddwn hefyd yn cysylltu â'r byrddau iechyd i gyd i godi ymwybyddiaeth o'r adnodd a'r wefan ar gyfer eu staff a'u hyrwyddo yn eu hardaloedd.

<u>Goblygiadau Ariannol</u>

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cam hwn wedi cael eu hymgorffori o fewn ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Argymhelliad y Pwyllgor 15

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o lwybr ôl-ymyrraeth Cymru gyfan, roi ystyriaeth ddwys i ddarparu cyllid ar gyfer grwpiau cymorth i'r rhai sydd wedi dioddef profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad, fel bod pobl ledled Cymru yn gallu cael cymorth y mae ei ddirfawr angen. Credwn y gall grwpiau o'r fath gyflawni rôl allweddol o ran cefnogi iechyd meddwl a lles meddyliol y rhai sydd wedi dioddef profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad. Gallai hyn yn ei dro arwain at lai o alw am wasanaethau'r GIG.

Ymateb Llywodraeth Cymru - DERBYN MEWN EGWYDDOR

Rydym wedi comisiynu darn o waith yn ddiweddar a ariannwyd drwy'r Bwrdd Diwedd Bywyd (End of Life Board) i gynnal astudiaeth gwmpasu i wasanaethau gofal profedigaeth yng Nghymru. Bydd Marie Curie a Phrifysgol Caerdydd yn arwain yr astudiaeth, sydd i gychwyn yn ceisio mapio'r cymorth sy'n bodoli eisoes, yn amrywio o atgyfeirio hyd at gwnsela arbenigol, ac yn nodi meysydd lle y mae angen adnoddau pellach. Bydd hyn yn sicrhau dull cydlynol o ddarparu gofal profedigaeth

yng Nghymru. Fel rhan o'r astudiaeth, un maes lle y rhoddir ffocws penodol yw gwasanaethau i gefnogi'r rhai sydd wedi profi marwolaeth sydyn heb esboniad neu farwolaeth drwy hunanladdiad. Bydd hyn yn helpu i lywio buddsoddiad wedi'i dargedu mewn ffordd drawslywodraethol ar gyfer cymorth profedigaeth.

Mae'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol hefyd yn arwain ar y gwaith o ddatblygu llwybr profedigaeth. Bydd hyn yn cychwyn gyda digwyddiadau rhanddeiliaid i archwilio profiadau cyfredol, a bydd yn llywio mwy o ffrydiau cymorth cenedlaethol a lleol cydlynol.

Buasem hefyd yn disgwyl i fyrddau iechyd ariannu gwasanaethau o'r fath yn eu hardaloedd eu hunain neu gydweithio i wneud hynny.

Goblygiadau Ariannol

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cam hwn wedi cael eu hymgorffori o fewn ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Argymhelliad y Pwyllgor 16

Rydym yn argymell y dylai'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol a fforymau hunanladdiad rhanbarthol ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad personol o syniadau hunanladdol, gan gynnwys y rhai sydd wedi goroesi ymgais i gyflawni hunanladdiad a phobl sydd wedi dioddef profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad i sicrhau bod yr holl weithgarwch atal hunanladdiad yn seiliedig ar brofiad uniongyrchol.

Ymateb Llywodraeth Cymru - DERBYN

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyd-gynhyrchu ac mae wedi buddsoddi'n ddiweddar mewn datblygu'r dull gweithredu hwn gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sydd wedi profi bywyd gydag iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r fforwm cenedlaethol, datblygu canllawiau cenedlaethol a chysylltiadau cryfach rhwng grwpiau sy'n bodoli eisoes a datblygu polisi cenedlaethol.

Er mwyn cydnabod yr amser a'r costau teithio ar gyfer pobl sydd â phrofiad i fynychu cyfarfodydd, rydym hefyd wedi cynnwys costau teithio ac ad-dalu o fewn cyllideb y Grŵp Cynghori Cenedlaethol y gellid cael mynediad iddynt.

Goblygiadau Ariannol

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cam hwn wedi cael eu hymgorffori o fewn ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Argymhelliad y Pwyllgor 17

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyflogwyr y GIG yng Nghymru i sicrhau bod pob cyflogai sydd wedi ymdrin ag achosion o hunanladdiad/ymgais i gyflawni hunanladdiad yn gallu cael gafael ar gymorth priodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru – DERBYN

Mae gan holl gyflogwyr y GIG Raglenni Cymorth i Gyflogeion, gyda gwasanaethau lles sy'n cynnig amrywiaeth o gymorth, gan gynnwys mynediad i gwnsela. Yn y strategaeth Siarad â fi 2, nodwyd gweithleoedd fel 'lleoedd blaenoriaeth' ar gyfer gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar atal hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth, cael gwared ar y stigma sydd ynghlwm wrth broblemau iechyd meddwl, ac annog ymddygiad lle mae pobl yn ceisio cymorth. Yn ogystal â lleihau pwysau a chydnabod arwyddion cynnar anawsterau iechyd meddwl, anogir gweithleoedd i ddarparu ymyrraeth a chymorth priodol drwy wasanaethau iechyd a lles i gyflogeion.

<u>Goblygiadau Ariannol</u>

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol – mae'r gwaith hwn wedi cael ei ymgorffori o fewn rhaglenni gwaith cyfredol.

Argymhelliad y Pwyllgor 18

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod hunanladdiad ymhlith dynion fel blaenoriaeth genedlaethol ac yn dyrannu cyllid priodol i adnabod a gweithredu dulliau newydd o leihau'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl er mwyn annog dynion i siarad amdano a cheisio cymorth. Dylai hyn gynnwys cyfle i gyflwyno prosiectau presennol yn ehangach.

Ymateb Llywodraeth Cymru – DERBYN

Rydym yn cydnabod hunanladdiad ymhlith dynion fel blaenoriaeth genedlaethol. Nodir mai dynion canol oed yw'r flaenoriaeth yn strategaeth a chynllun gweithredu Siarad â fi 2. Mae'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol wedi cynhyrchu canllawiau i bob rhanbarth i sicrhau bod y bobl, lleoedd a darparwyr gofal sy'n flaenoriaeth yn cael eu targedu wrth ddatblygu'r cynlluniau gweithredu lleol.

Rydym hefyd yn ariannu rhaglenni ar hyn o bryd sy'n gweithio'n benodol â'r cohort hwn, gan gynnwys arian i ymestyn siediau dynion a'r Samariaid drwy adran 64 y cynllun iechyd meddwl.

Mae Cam III y rhaglen Amser i Newid Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru hefyd yn canolbwyntio ar ddynion canol oed ar gyfer y cyfnod 2018-2021.

Yn yr un modd ag argymhellion 4 a 15, caiff cyllid ei ddarparu i gefnogi mentrau sy'n rhoi cymorth i feysydd blaenoriaeth, a bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol i flaenoriaethu buddsoddiad.

Goblygiadau Ariannol

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cam hwn wedi cael eu hymgorffori o fewn ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Argymhelliad y Pwyllgor 19

Rydym yn cymeradwyo argymhelliad yr adolygiad canol cyfnod o Siarad â fi 2 y dylai gweithredu canllawiau NICE ar hunan-niweidio fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Dylid **gweithredu hyn o fewn 6 mis** i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru – DERBYN

Disgwylir eisoes i fyrddau iechyd gadw at ganllawiau NICE. Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn ategu'r disgwyliad hwn drwy ysgrifennu at fyrddau iechyd o fewn yr amserlen a nodwyd.

Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol a gwneir hyn o fewn yr adnoddau sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad y Pwyllgor 20

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei strategaeth unigrwydd arfaethedig yn atgyfnerthu'r neges y dylai unigrwydd ac unigedd fod yn ystyriaethau canolog pan wneir penderfyniadau ynghylch cyllidebau a pholisïau.

Ymateb Llywodraeth Cymru – DERBYN

Bu ymgynghoriad cyhoeddus ar ein strategaeth 'Clymu Cymunedau – Mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol', a ddaeth i ben 15 Ionawr. Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys:

- Pennu ein dull awgrymedig ar gyfer y dyfodol, a pham a ble rydym yn teimlo y dylid ffocysu ein hymdrechion mewn partneriaeth ag eraill.
- Gosod cyfres o gwestiynau a ddyluniwyd i hwyluso trafodaeth ymhlith sefydliadau ac unigolion ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud yn fwy effeithiol i fynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd cymdeithasol, gan gynnwys mynediad i wasanaethau.

- Mae’r ymgynghoriad yn gofyn nifer o gwestiynau ynghylch sut y dylem ystyried unigrwydd ac unigedd yn y gwaith a wnawn a fydd yn ymdrin â’r argymhelliad hwn. Caiff ein strategaeth derfynol ei chyhoeddi yn 2019 yn dilyn ystyriaeth o’r ymatebion i’r ymgynghoriad.

Goblygiadau Ariannol

Caiff goblygiadau ariannol y broses o weithredu’r Strategaeth Unigrwydd ac Unigedd eu hystyried fel rhan o’r gwaith o ddatblygu’r ddogfen derfynol yn 2019.

Argymhelliad y Pwyllgor 21

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru arwain y gwaith presennol gyda CCAUC ac y dylai ddisgwyl i ddarparwyr addysg bellach ac uwch yng Nghymru gyflwyno Siarter Iechyd Meddwl Myfyrwyr. Dylid gwneud y gwaith hwn mewn pryd ar gyfer dechrau’r flwyddyn academaidd 2019-20 i sicrhau bod myfyrwyr yng Nghymru yn cael budd o’r gwaith cyn gynted ā phosibl.

Ymateb Llywodraeth Cymru - DERBYN MEWN EGWYDDOR

Mae’r Gweinidog Addysg eisoes wedi gofyn i CCAUC weithio gyda phartneriaid i ymdrin ag iechyd a lles, gan gynnwys ffactorau andwyol sy’n effeithio ar iechyd meddwl. Fel yr amlygwyd yn llythyr Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar y pryd i’r Pwyllgor ym mis Tachwedd llynedd (yn dilyn ymholiadau a godwyd yn ystod y broses graffu gyffredinol ar faterion AB ac AU ym mis Hydref) bydd gan brifysgolion yng Nghymru amrywiaeth o fentrau ac ymyraethau iechyd meddwl a lles ar waith i gefnogi myfyrwyr a staff. Byddwn yn archwilio gyda CCAUC y potensial i Siarteri Myfyrwyr sefydliadau AU yng Nghymru, sydd wedi bod ar waith ers 2012/13, ystyried gweithgareddau iechyd meddwl myfyrwyr.

Mae CCAUC hefyd yn gwneud cynnydd gyda’r gwaith o ddatblygu ei Ddull Strategol o ymdrin â lles ac iechyd meddwl a’r cynllun gweithredu cysylltiedig a gaiff ei lywio gan, a’i drafod gan, amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys Prifysgolion Cymru, NUS Cymru, AMOSSHE Cymru (sefydliad Gwasanaethau Myfyrwyr), cynrychiolwyr o grŵp colegau a phrifysgolion iach Cenedlaethau’r Dyfodol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartïon eraill sydd â diddordeb.

Mae Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn ymrwymedig i weithio i wella iechyd meddwl a lles myfyrwyr a staff ac mae llawer o waith da eisoes yn mynd rhagddo mewn cydweithrediad ag asiantaethau a sefydliadau eraill, ac mae peth o’r gwaith hwn arwain y ffordd o ran y sector. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu gweithgareddau yn y maes pwysig hwn i sicrhau bod gan staff a myfyrwyr fynediad i’r help a’r cymorth sydd eu hangen arnynt.

Yn ogystal, mae Prifysgolion Abertawe a Chaerdydd wedi mabwysiadu llyfryn diogelu rhag hunanladdiad a gynhyrchwyd gan Papyrus ar gyfer prifysgolion. Mae’r

Grŵp Cynghori Cenedlaethol yn archwilio'r potensial i weithredu'r gwaith hwn ymhellach.

Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol ar gyfer yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad y Pwyllgor 22

Rydym yn argymell bod staff perthnasol yn Llywodraeth Cymru ac mewn asiantaethau eraill yn cael hyfforddiant priodol, megis pecyn cymorth "Gweithio gyda thosturi" y Samariaid, i ddangos mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r risgiau uwch o hunanladdiad sy'n gysylltiedig â chymunedau gwledig, yn enwedig ymhlith ffermwyr a'u teuluoedd. Byddai hyn yn eu galluogi i ymateb yn dosturiol wrth ymdrin â theuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth, ac yn hybu gwell dealltwriaeth o'r anawsterau y gall teuluoedd yn y sefyllfa hon eu hwynebu nid dim ond o ran cynnal eu busnes ffermio o ddydd i ddydd, ond hefyd o ran cyrraedd terfynau amser sy'n gysylltiedig â phrosesau ffermio Llywodraeth Cymru. Byddem yn annog staff perthnasol yn y Llywodraeth i ddefnyddio'u disgresiwn i liniaru straen ar deuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth, er enghraifft drwy ohirio arolygiadau fferm dan amgylchiadau priodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru – DERBYN

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r broses o ddatblygu'r pecyn offer gweithio gyda thosturi, trwy gyllid adran 64 i'r Samariaid. Mae'r Samariaid wedi dosbarthu copïau electronig a chaled o'r pecyn offer yn eang, gan dargedu staff rheng flaen, Canolfannau Cyngor ar Bopeth, Canolfannau Gwaith, yr holl ACau ac ASau, Adran Gwaith a Phensiynau, nyrsys iechyd cyhoeddus, a Banciau Bwyd mewn ardaloedd gwledig.

Mae ein strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niweidio ar gyfer Cymru, Siarad â fi 2, yn nodi pobl sydd mewn perygl o hunanladdiad, sy'n cynnwys grwpiau galwedigaethol risg uchel, gan gynnwys ffermwyr a gweithwyr amaethyddol eraill. Caiff gweithgareddau pellach eu hystyried ochr yn ochr â'r fframwaith hyfforddi (gweler argymhelliad un).

Yn ddiweddar, cyhoeddodd cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig rodd o £500,000 i elusennau gwledig sy'n gweithredu ar draws Cymru gyfan i helpu darparu cymorth tymor byr i'r teuluoedd hynny sy'n ei chael hi'n anodd talu eu costau byw. Mae'r cyllid a roddir i'r tair elusen genedlaethol yn amodol ar gydweithio'n agos â rhwydwaith o elusennau lleol, fel Tir Dewi a Sefydliad DPJ, i gyflawni'r mentrau.

Mae Gwasanaeth Cyswllt Ffermio Llywodraeth Cymru hefyd yn chwarae rôl hanfodol wrth helpu teuluoedd sy'n ffermio i ymdrin â sefyllfaoedd anodd fel profedigaeth neu

galedi ariannol. Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Ffermio yn gweithio'n agos ag elusennau ffermio – R.A.B.I, Tir Dewi, Cronfa Addington a'r Rhwydwaith Cymunedau Ffermio ac maent yn aml yn cyfeirio ffermwyr at yr elusennau hyn am help ychwanegol. Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Ffermio hefyd wedi mynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl yn ddiweddar – mae hyn wedi'u helpu i adnabod yr arwyddion a chefnogi pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol, gweler y manylion uchod.

Argymhelliad y Pwyllgor 23

Rydym yn argymell bod ***Llywodraeth Cymru yn cyd-drafod â'r Swyddfa Gartref*** *mewn perthynas ag adolygu'r broses ar gyfer asesu a rheoli'r risg o gyflawni hunanladdiad a hunan-niwed ymhlith carcharorion er mwyn sicrhau ei bod yn ddigon cadarn i adnabod y rhai sydd mewn perygl a'i bod yn rhoi'r cymorth cywir i'r rhai sy'n cael eu rheoli drwy'r broses.*

Ymateb Llywodraeth Cymru – DERBYN

Rydym yn parhau i weithio yn agos gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i wella iechyd a lles mewn carchardai yng Nghymru. Cyfrifoldeb Y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am y broses o asesu perygl o hunanladdiad a hunan-niweidio a byddwn yn codi'r mater hwn gyda'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol a gwneir hyn o fewn yr adnoddau sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad y Pwyllgor 24

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr argymhellion yn Cadernid Meddwl gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cael eu rhoi ar waith er mwyn gwella a diogelu iechyd a lles meddyliol plant a phobl ifanc yng Nghymru. O ran hunanladdiad yn benodol, rydym yn argymell y dylai'r argymhelliad yn Cadernid Meddwl ynghylch canllawiau i ysgolion (argymhelliad 16 yn yr adroddiad) gael ei roi ar waith fel un o'r blaenoriaethau pennaf:

Bod Llywodraeth Cymru, mewn perthynas â hunanladdiad yn benodol, yn gweithio gyda sefydliadau arbenigol:

▪ *i ddarparu, o fewn tri mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, ganllawiau i ysgolion ynghylch siarad am hunanladdiad a hunan-niweidio, i chwalu'r syniad y bydd unrhyw drafodaeth yn arwain at ymateb 'heintus'*

▪ *i roi blaenoriaeth i ddarparu canllawiau i ysgolion lle bu hunanladdiad neu amheuaeth o hunanladdiad; ac*

▪ *yn sicrhau bod hyfforddiant iechyd meddwl sylfaenol, gan gynnwys sut i siarad am hunanladdiad, yn rhan o hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus, fel bod yr holl athrawon yn gallu siarad am hynny.*

Ymateb Llywodraeth Cymru - DERBYN MEWN EGWYDDOR

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i argymhelliad 16 Cadernid Meddwl. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn mewn egwyddor a chafodd ei gynnwys yn rhaglen waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidog. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo ar bob un o'r tair agwedd sydd ynghlwm wrth yr argymhelliad hwn:

- Caiff canllawiau eu cyhoeddi fis Ebrill 2019 ar reoli Hunan-niweidio a Hunanladdiad mewn ysgolion ar ôl gweithdy cydweithredol gyda chynrychiolwyr o faes addysg, iechyd a'r Samariaid sy'n adeiladu ar arfer dda sy'n bodoli eisoes.
- Bydd diwygio addysg gychwynnol athrawon yn gofyn i ddarparwyr achrededig ddylunio a darparu cyrsiau sy'n cefnogi pedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru ac ymdrin â'r chwe maes dysgu a phrofiad, gan gynnwys Iechyd a lles.
- O Dymor yr Hydref 2018, bu Arloeswyr Dysgu Proffesiynol yn arwain cylchedau o ymholiadau gweithredu gyda'r rhwydwaith ysgolion ehangach, gan ganolbwyntio ar ryngweithio cynnar gyda'r cwricwlwm drafft i nodi gofynion dysgu proffesiynol taer.

<u>Goblygiadau Ariannol</u>

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol – mae'r gwaith hwn wedi cael ei ymgorffori o fewn rhaglenni gwaith cyfredol.

Argymhelliad y Pwyllgor 25

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at bob awdurdod cynllunio yng Nghymru i bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod yr holl strwythurau newydd yn cynnwys mesurau i'w hatal rhag cael eu defnyddio i gyflawni hunanladdiad.

Ymateb Llywodraeth Cymru - DERBYN MEWN EGWYDDOR

Mae ystod o ganllawiau ar gael yn barod ar gyfer strwythurau newydd sy'n darparu

camau diogelu ac sy'n lleihau'r risg o ddefnyddio strwythurau fel dull ar gyfer hunanladdiad. Er enghraifft:

- Canllawiau Buddsoddi Seilwaith Llywodraeth Cymru (2015) yn darparu manylion ar gydbwyso risg ac urddas cleifion.
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1974) yn rhoi manylion trefniadau diogelu i gynnal diogelwch o fewn gweithleoedd.
- Rheoliadau Adeiladu, Rhan K – Diogelwch rhag syrthio, gwrthdrawiad ac effaith. Sicrhau diogelwch adeiladau gyda balconïau, er enghraifft
- Mae polisi cynllunio cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2018 yn hyrwyddo egwyddorion gwneud lle i helpu cefnogi lles. Mae hyn yn cynnwys polisïau ar ddylunio cynhwysol.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol yn nodi'r gyfraith mewn perthynas â strwythurau newydd a rhaid i gynllunwyr gydymffurfio â hyn.

Byddwn yn ysgrifennu at yr holl awdurdodau cynllunio yng Nghymru i dynnu sylw at adroddiad y Pwyllgor ac i'w hatgoffa am y canllawiau cysylltiedig sy'n bodoli'n barod. Byddwn hefyd yn adolygu'r angen am unrhyw ganllawiau pellach yn y maes hwn.

Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol.

Argymhelliad y Pwyllgor 26

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r asiantaeth fwyaf priodol i adnabod lleoliadau hunanladdiad hysbys ac yn gosod arwyddion yn yr ardaloedd hynny i annog pobl i ofyn am help.

Ymateb Llywodraeth Cymru - DERBYN MEWN EGWYDDOR

Mae fforymau rhanbarthol yn cynnwys cynrychiolaeth gan randdeiliaid o amrywiaeth eang o asiantaethau. Mae'r fforymau eisoes yn ystyried lleoliadau hunanladdiad hysbys ond rydym yn cydnabod bod y gwaith hwn yn sensitif, yn arbennig yn nhermau sut a phryd mae arwyddion yn briodol. Mae'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol wedi cytuno i adolygu'r canllawiau ar atal hunanladdiad mewn lleoedd cyhoeddus *(Preventing Suicide in Public Places)* ac ystyried a oes angen eu haddasu ar gyfer Cymru ac a ydynt yn cyd-fynd â chanllawiau cyfredol. Bydd y fforymau (gyda chanllawiau gan y Grŵp Cynghori Cenedlaethol) yn parhau i ystyried lleoedd, er maent yn argymell bod hyn yn cael ei wneud gan grŵp bach a enwebwyd ar gyfer pob rhanbarth, yn hytrach na thrafodaeth ehangach o ganlyniad i'r angen i ymateb gyda gofal a sensitifrwydd wrth edrych ar safleoedd a nodwyd.

Goblygiadau Ariannol

Mae'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cam hwn wedi cael eu hymgorffori o fewn ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Argymhelliad y Pwyllgor 27

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio pa drefniadau ffurfiol y gellid eu rhoi ar waith i hyrwyddo a monitro dilyn y canllawiau, o ystyried yr effaith negyddol y mae adroddiadau anghyfrifol am *hunanladdiad yn gallu ei chael. Dylai hyn gynnwys ystyried trefniadau sydd ar waith mewn mannau eraill, gan gynnwys Gweriniaeth Iwerddon.*

Ymateb Llywodraeth Cymru – DERBYN

Mae protocolau ar waith eisoes i weithio gyda'r cyfryngau mewn perthynas â chanllawiau. Mae hyn yn cynnwys cyswllt rheolaidd rhwng y Samariaid a sefydliadau newyddion, yn ogystal â gwaith gyda'r cyfryngau, gan gynnwys rhaglenni teledu i ddarparu cyngor arbenigol ac i addysgu lle y mae sylw amhriodol wedi'i roi neu lle y bydd hunanladdiad yn bwnc trafod. Mae tîm cyfathrebu Llywodraeth Cymru hefyd yn monitro ac yn gweithio gyda'r cyfryngau / Samariaid pan welir nad yw'r cyfryngau yn cydymffurfio â chanllawiau. Fodd bynnag, mae bob amser mwy o waith i'w wneud, a byddwn yn gweithio gyda'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol i barhau i archwilio llwybrau i wella dulliau cyfrifol o adrodd ar hunanladdiad, gan gynnwys edrych ar waith Gweriniaeth Iwerddon. Byddwn hefyd yn cynnwys canllawiau'r cyfryngau ar y wefan atal hunanladdiad a byddwn yn parhau i hyrwyddo'r gwaith hwn.

Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol – mae'r gwaith hwn wedi cael ei ymgorffori o fewn rhaglenni gwaith cyfredol.

Argymhelliad y Pwyllgor 28

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â phrifysgolion, y Samariaid a phartïon perthnasol eraill megis Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr a chyhoeddwyr i archwilio sut y gallai hyfforddiant i newyddiadurwyr yn y brifysgol, drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus neu hyfforddiant yn y swydd gynnwys pwysigrwydd dilyn y canllawiau ar adrodd am hunanladdiad a hybu dealltwriaeth o effaith negyddol adroddiadau anghyfrifol.

Ymateb Llywodraeth Cymru – DERBYN

Mae ffrwd waith gyfredol gyda phrifysgolion a'r Undeb Newyddiadurwyr, sy'n gweithio i sicrhau bod hyfforddiant ar gyfer y cyfryngau yn hyrwyddo'r canllawiau. Caiff y gwaith ei arwain gan yr Athro Ann John.

Mae'r berthynas gyda'r cyfryngau yng Nghymru wedi'i sefydlu'n dda. Byddai cryfhau'r cynnydd yn erbyn canllawiau'r cyfryngau y tu hwnt i Gymru yn gofyn am ymdrech ar y cyd gyda Llywodraeth y DU a sefydliadau cenedlaethol.

Goblygiadau Ariannol

Dim.

Argymhelliad y Pwyllgor 29

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar ei Phapur Gwyrdd ar Strategaeth Diogelwch y Rhyngrwyd i sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cymryd i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein. Hefyd, rydym yn awyddus i weld y potensial i'r cyfryngau cymdeithasol gael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles meddyliol pobl yn cael ei gynyddu i'r eithaf. Credwn y dylid ymchwilio i'r holl gyfleoedd i hybu iechyd meddwl da drwy safleoedd y cyfryngau cymdeithasol/gwefannau, er enghraifft drwy fynd ati'n fwy gweithredol i hyrwyddo ffynonellau Cymorth.

Ymateb Llywodraeth Cymru – DERBYN

Fel rhan o'n rhaglen waith diogelwch ar-lein helaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgysylltu â Llywodraeth y DU i ddatblygu Strategaeth Diogelwch y Rhyngrwyd a Phapur Gwyrdd ar gyfer y DU. Er mwyn sicrhau bod Cymru yn cael ei chynrychioli ar lefel y DU, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn rhan o Fwrdd Gweithredol Cyngor y DU ar gyfer Diogelwch y Rhyngrwyd i Blant (UKCIS).

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu ar-lein ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru yn 2017, gan hyrwyddo gwneud defnydd diogel a chadarnhaol o'r rhyngrwyd.

Byddwn yn gweithio gyda Bwrdd Diogelwch y Rhyngrwyd Cymru i ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd i amddiffyn plant a phobl ifanc ar-lein a bydd hyn yn cynnwys ystyried Papur Gwyrdd ar Strategaeth Diogelwch y Rhyngrwyd gan Lywodraeth y DU.

Goblygiadau Ariannol

Dim.

Argymhelliad y Pwyllgor 30

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru / y Grŵp Cynghori Cenedlaethol yn rhoi arweiniad clir i'r fforymau rhanbarthol i sicrhau dull cyson o ran eu haelodaeth, eu strwythur a'u trefniadau adrodd. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro effeithiolrwydd y fforymau rhanbarthol i sicrhau eu bod yn cyflawni canlyniadau cynaliadwy a chyson ledled Cymru, a ***darparu diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor.***

Ymateb Llywodraeth Cymru – DERBYN

Cyhoeddwyd canllawiau ar gyfer y rhanbarthau i gynhyrchu cynlluniau gweithredu lleol yn 2018. Rydym hefyd wedi ymrwymo i weithio gyda'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol i ddatblygu dogfen yn nodi disgwyliadau a safonau ar gyfer rhanbarthau yn egluro cyfrifoldebau a threfniadau adrodd. Caiff y gwaith hwn ei gwblhau yn 2019.

Rydym eisoes yn gofyn bod pobl rhanbarth yn darparu diweddariad ym mhob cyfarfod o'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol, yr ydym yn aelodaeth ohono. Rydym hefyd yn cynnal gwaith monitro trwy gynllun gweithredu Law yn Llaw at Iechyd Meddwl er mwyn monitro cynnydd yn y maes allweddol hwn. Byddwn yn sicrhau bod y gwaith monitro hwn yn parhau ac yn ystyried y ddogfen disgwyliadau a safonau uchod.

Argymhelliad y Pwyllgor 31

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru / cyrff cyhoeddus eraill (BILlau / ALlau) yn trefnu bod cyllid penodol ar gael ar gyfer atal hunanladdiad i sicrhau ei fod yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol i ganfod faint o gyllid sydd ei angen i sicrhau'r cynaliadwyedd hwn, a chlustnodi'r swm priodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru - DERBYN MEWN EGWYDDOR

Rydym yn ymrwymedig i ddarparu cyllid parhaus i gefnogi'r gwaith o weithredu ein hymateb i'r argymhellion yn adroddiad ymholiad y Pwyllgor ac adolygiad canol ffordd o Siarad â mi 2. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol i fanteisio i'r eithaf ar y cyllid hwn.

Nid yw clustnodi darpariaeth yn rhoi unrhyw warant o ran effaith na chanlyniadau ac mae'n dargyfeirio sylw at yr hyn a all fod yn drefniadau monitro cymhleth. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo'r cyfrifoldeb am weithredu yn ymestyn ar draws nifer o sefydliadau a meysydd polisi. Fodd bynnag, ein gobaith yw bod y Grŵp Cynghori Cenedlaethol a'r grwpiau rhanbarthol yn darparu'r seilwaith ar draws Cymru i benderfynu ar y ffordd orau o dargedu adnoddau'r sefydliadau amrywiol.

Goblygiadau Ariannol

Mae’r costau sy’n gysylltiedig â gweithredu’r cam hwn wedi cael eu hymgorffori o fewn ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf.